Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Strategaeth Gorfforaethol

***Gweithio i greu CNPT mwy llewyrchus, tecach a gwyrddach***

**2025/2028**



Os bydd angen yr wybodaeth hon arnoch chi mewn print mwy neu fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol - **policy@npt.gov.uk**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Gwybodaeth am Gastell-nedd Port Talbot | 4 |
| Strwythur y Cyngor | 5 |
| Ein Gweithlu – Tîm CNPT | 6 |
| Cyllideb a Materion Ariannol | 7 |
| Pwrpas, Gweledigaeth a Gwerthoedd | 8/9 |
| Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Sosio-economaidd | 10/11 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025 | 12 |
| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | 13 |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | 14 |
| Ein Gweledigaeth Hirdymor | 15 |
| Amcan Llesiant 1 - Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd | 16/20 |
| Amcan Llesiant 2 - Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy | 21/26 |
| Amcan Llesiant 3 - Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth | 27/31 |
| Amcan Llesiant 4 - Rhaglen Alluogi ar gyfer Swyddi a Sgiliau | 32/35 |
| Rhaglen Alluogi | 36/40 |
| Lleisio'ch barn | 41 |

# Rhagair

Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2025/2028 yn cyflwyno'n hymrwymiad i greu cymuned lewyrchus, sy'n decach ac yn fwy gwyrdd.

Mae ein gweledigaeth i Gastell-nedd Port Talbot wedi'i seilio ar bedwar amcan llesiant, sef sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, bod ein cymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy, diogelu ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth, a darparu mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel. Mae'r weledigaeth hon hefyd yn ceisio rhoi sylw i'r heriau sosio-economaidd mae ein cymunedau'n eu hwynebu.



Cllr Steve Hunt
Arwainwydd,
Cyngor Castell-nedd
Port Talbot

Rydym wedi penderfynu mireinio ein dull gweithredu ar gyfer y tair blynedd nesaf trwy bontio o Gynllun Corfforaethol i Strategaeth Gorfforaethol, ac alinio'n hadnoddau, ein hymdrechion a'n mentrau fel rhan o'n hymrwymiad i gyfleoedd teg a datblygu cynaliadwy.

Mae ein pedwar amcan llesiant yn dal yn greiddiol i'n gwaith, a'n huchelgeisiau tymor hwy. Cefnogir yr amcanion llesiant gan nodau tair blynedd, sy'n canolbwyntio ar ble hoffem ni fod erbyn 2028, a detholiad o fesurau perfformiad i ddangos sut byddwn ni'n monitro cynnydd ein hamcanion llesiant.

Yn sylfaen i'r Strategaeth Gorfforaethol a'i hamcanion llesiant mae Cynllun Busnes blynyddol Penaethiaid Gwasanaeth, a nifer o strategaethau a chynlluniau cymeradwy'r cyngor a phartneriaid, fydd yn cynnwys manylion gweithrediadau a chyflwyno gwasanaethau.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cydweithio a chynhwysiant wrth gyflawni ein hamcanion llesiant. Trwy weithio gyda'r trigolion, busnesau a phartneriaid, ein nod yw creu Castell-nedd Port Talbot hyfyw a chydnerth.
Wrth i ni symud ymlaen, rydyn ni'n dal i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amlwg, sy'n gwella llesiant ein cymunedau.



Frances O'Brien
Prif Wreithredwr,
Cyngor Gastell-nedd
Port Talbot

> ***"Gwahoddwn chi i ymuno â ni wrth i ni ymdrechu i greu Castell-nedd Port Talbot sy'n fwy llewyrchus, yn decach ac yn fwy gwyrdd."***

# Gwybodaeth am Gastell-nedd Port Talbot

Mae Castell-nedd Port Talbot yn cwmpasu **170 milltir** sgwâr ac mae'n gartref i **142,300*** o drigolion mewn **67,170** o aelwydydd. Plant a phobl ifanc yw 29% o'r boblogaeth leol





Mae **28.4%*** (8,391) o'r plant yn byw mewn tlodi, ac mae disgwyl i'r ffigur hwn godi i 34% erbyn 2030**

Mae **73.2%*** o'r trigolion oedran gwaith yn weithredol yn economaidd

Mae **3.1%*** o'r rhai sy'n ddi-waith yn segur yn economaidd

Yn 2023/2024, roedd 5,006 o blant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Roedd gan **15.7%** o boblogaeth ysgolion CNPT Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Rhwng 2019/20 a 2022/23, bu **cynnydd o 108%** yn yr aelwydydd sydd wedi cyrchu llety dros dro yn ystod y flwyddyn

Yn 2023, roedd **2,150 o oedolion** (tua 2% o'r boblogaeth oedolion) yn derbyn un neu fwy o wasanaethau gofal cymdeithasol

Mae hyd oes disgwyliedig a hyd oes iach disgwyliedig yn is yng Nghastell-nedd Port Talbot nag yng ngweddill Cymru, ac mae'r bwlch rhwng y rhai gorau a gwaethaf eu byd yn sylweddol

Mae tua **20,000** o ofalwyr di-dâl yn byw yn CNPT, mae gan 6% o blant gyfrifoldebau gofalu





Mae'r economi ymwelwyr wedi tyfu **mwy na 14%** rhwng 2010 a 2019, gyda nifer yr ymwelwyr yn codi **11%**

Mae'r fwrdeistref sirol yn ymfalchïo mewn nifer o **safleoedd hanesyddol allweddol**, sy'n cynnwys:

- 399 o Adeiliadau Rhestredig
- 264 o Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol
- 6 Ardal Gadwraeth
- 6 o Barciau a Gerddi hanesyddol cofrestredig
- 96 o Henebion Rhestredig
- 2 Dirlun hanesyddol cofrestredig

Ar ddiwedd 2023/2024, roedd **67.72%** o'n gwastraff yn cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, ac roedden ni'n cynhyrchu **197.25kg** o wastraff gweddilliol y pen

**13.5%*** o drigolion CNPT yn siarad Cymraeg

*Data o Gyfrifiad 2021

** Sefydliad Joseph Rowntree

# Strwythur y Cyngor

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae 34 o wardiau etholiadol sydd â 60 o aelodau etholedig. Rydyn ni'n defnyddio model cabinet ar gyfer llywodraeth leol, gydag Arweinydd sy'n cael cefnogaeth naw aelod cabinet (y Weithrediaeth).

Gwneir yr holl benderfyniadau gweithredol trwy'r Cabinet neu Aelod o'r Cabinet. Mae Pwyllgorau Craffu yn monitro perfformiad a phenderfyniadau'r Weithrediaeth ac yn cyflwyno adroddiadau ac argymhellion sy'n cynghori'r Weithrediaeth a'r cyngor cyfan ynghylch ei bolisïau, ei gyllideb a chyflwyno gwasanaethau.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, sef y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yn goruchwylio'r rheolaeth strategol ar waith y Cyngor. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth gyfrifoldeb gweithredu unigol am wasanaethau, yn ogystal â darparu cefnogaeth strategol i uwch-reolwyr. Ceir rhagor o fanylion am y cyfarwyddiaethau yn y diagram isod.

**Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol**

Gwasanaethau Digidol

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Datblygu Pobl a Sefydliadol



**Amgylchedd ac Adfywio**

Gofal Strydoedd

Peirianneg a Thrafnidiaeth

Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

Eiddo ac Adfywio

Asiant Cefnffyrdd

**Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai**

Gwasanaethau Oedolion

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Tai a Diogelwch Cymunedol

**Cyllid**

Treth y Cyngor

Budd-daliadau

Archwilio Mewnol

Systemau Cyfalaf, Trysorlys ac Ariannol

Gwasanaethau Ariannol

**Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes**

Hamdden, Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant

Blynyddoedd Cynnar, Cynhwysiant a Chyfranogiad

Datblygu Addysg

Gwasanaethau Cymorth a Thrawsnewid

# Ein Gweithlu – Tîm CNPT




**Mae Tim CNPT yn cyfloni 6622 o bobl**

**40%** cyflogedig mewn ysgol



**21%** yn athrawon

**19%** yn staff cymorth ysgol




| 2% | 5% | 18% | 18% | 57% |
|---|---|---|---|---|
| yn gweithio mewn gwasanaethau ariannol | yn gweithio mewn gwasanaethau corfforaethol a strategaeth | yn gweithio yn y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai | yn gweithio ym maes yr amgylchedd ac adfywio | yn gweithio ym maes addysg, hamdden a dysgu gydol oes |

Cyflwynir ein gwasanaethau gan y bobl sy'n creu'r cyngor. Y bobl hyn sy'n cynrychioli 45% o gyfanswm gwariant y cyngor.

Rydyn ni'n gweithio'n barhaus i ddenu, cadw ac ysgogi cyflogeion i fod y gorau gallan nhw fod, a meddu ar y sgiliau cywir i gyflwyno gwasanaethau hanfodol i bobl Castell-nedd Port Talbot.


Trwy ein Strategaeth Dyfodol Gwaith 2022/2027, a'i saith blaenoriaeth strategol ar gyfer y gweithlu, mae gennym gynllun gweithredu ar waith i sicrhau bod ein pobl yn cael arweiniad da, ac yn cael eu cefnogi, eu trystio a'u cydnabod am eu cyfraniad.

Rydyn ni eisiau i'n pobl gael eu trin yn deg, eu parchu, a'u hannog i gynnig syniadau ynghylch sut gallwn ni wella beth rydyn ni'n ei wneud.
Byddwn ni'n parhau i ddatblygu gweithlu sy'n cynrychioli ei gymunedau, a bydd pobl yn cael cyfle cyfartal i wneud cynnydd ar draws ein sefydliad.

Trwy ymgysylltu'n barhaus â chyflogeion, byddwn ni'n gallu olrhain newid barn ac agwedd ein gweithwyr, a mesur sut gallai strategaethau cyflogaeth ddylanwadu ar hynny.

**70%** yn fenywaidd

**30%** yn ddynion






**95%** o'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn ein bandiau cyflog prif swyddogion uchaf yw menywod

**37%** o'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn ein gradd â'r cyflog isaf (gradd 1) yn fenywod


**622** siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl

Cymraeg

**4,135** ychydig neu ddim Cymraeg o gwbl

# Cyllideb a Materion Ariannol

*__Sylwch__ – Mae'r canrannau wedi'u seilio ar gyllideb 2025/2026 a gallant newid yn ôl dyraniad y gyllideb a Chyllid Refeniw Llywodraeth Cymru*




*Cyfraniadau i sefydliadau allanol, yn cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gwasanaethau Archifau

** Mae'r costau eraill yn cynnwys ariannu cyfalaf, cymorth gyda Threth y Cyngor, mesurau effeithlonrwydd ynni a chodiadau cyflog

- Mae cyllideb y cyngor yn cael ei gwario ar gannoedd o wahanol wasanaethau i drigolion a busnesau, gyda rhyw ddau draean o'r gyllideb yn cael ei gwario ar ysgolion/addysg a gwasanaethau cymdeithasol, fel y nodir yn y diagram uchod;

- Mae Castell-nedd Port Talbot, fel llawer o gynghorau eraill ar draws y Deyrnas Unedig, wedi wynebu heriau sylweddol oherwydd blynyddoedd o gyni, sydd wedi'u gorfodi i wneud penderfyniadau anodd. Ar ben hynny, mae heriau byd-eang a domestig y blynyddoedd diwethaf wedi dwysáu ymhellach y pwysau ar adnoddau;

- Mae'r cyllid refeniw gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi bod ymhell o'r hyn roedd ar y cyngor ei angen i gyflwyno'i wasanaethau a chyflawni ei swyddogaethau, a gallai hynny orfodi lleihau neu ddileu gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol;

- Mae'r pandemig wedi gadael etifeddiaeth sylweddol, gyda chynnydd yn y galw am gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau digartrefedd. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac sydd angen cymorth ychwanegol gyda phresenoldeb yn yr ysgol er mwyn iddyn nhw fedru cymryd rhan mewn addysg;

- Mae'r argyfwng costau byw yn parhau, gyda llawer o'n trigolion a'n busnesau lleol yn profi caledi ariannol. Mae llawer o nwyddau a gwasanaethau yn parhau'n ddrutach, ac ochr yn ochr â hynny mae prisiau ynni a chyfraddau llog yn dal yn uchel;

- Gwelwyd cynnydd bychan yn y gyfradd gyflogaeth, ond mae nifer y bobl oedran gwaith sy'n dal yn segur yn economaidd a heb fod yn chwilio am waith yn dal yn ddigon mawr i beri pryder. Wedi dweud hynny, mae'r farchnad lafur yn dal yn gystadleuol iawn ac adlewyrchir hynny mewn prisiau uwch am wasanaethau;

- Mae wedi dod yn fwy heriol cyflawni prosiectau cyfalaf o ganlyniad i nifer o ffactorau a nodwyd uchod; a


- Thra bod y cyngor yn bartner allweddol yn yr ymateb i'r newidiadau yn Tata Steel UK Ltd ac yn ymwneud ag ystod o gyfleoedd datblygu economaidd pwysig, mae effaith gronnol y datblygiadau hynny yn heriol o ran darparu adnoddau.

# Pwrpas, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd wedi cael eu hadolygu, ac rydym wedi dod i'r casgliad eu bod yn dal yn berthnasol.

***Pwrpas** y cyngor yw helpu trigolion Castell-nedd Port Talbot i fyw bywydau da.*

Ein **gweledigaeth** yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn; sicrhau bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy; bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n diwylliant; a bod gan bobl leol y sgiliau i gael swyddi cynaliadwy am gyflog da yn yr economi werdd leol.




Mae gennym ni'r **gwerthoedd** canlynol wrth gyflawni ein gwaith:

**Cysylltiad** – mae beth sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni;
**Gofalgar** – rydych chi, eich bywyd a dyfodol ein bwrdeistref sirol yn bwysig i ni;
**Cydweithio** – rydyn ni'n gweithio gyda'n dinasyddion a'n partneriaid oherwydd gallwn ni gyflawni mwy gyda'n gilydd;
**Hyderus** – rydyn ni'n optimistaidd ac yn hyderus ynghylch y dyfodol.

# Meysydd Gwaith Trosfwaol

Mae'r pedwar maes gwaith trosfwaol hyn yn hyrwyddo'r ystod eang o waith sy'n cael ei wneud i gyfrannu at ein hamcanion llesiant ar draws ystod amrywiol o wasanaethau'r cyngor. Rydym am sicrhau bod y cyfraniad hwn yn cael ei gydnabod, gan ddangos ymrwymiad y cyngor a'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud.

### Costau byw / atal tlodi

Cefnogi ein trigolion i fwyafu incwm, lleihau costau byw, a hynny ochr yn ochr â chefnogaeth gyfannol ehangach i blant a theuluoedd er mwyn taclo effaith tlodi ar draws ein cymunedau.

### Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio

Ymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio ar draws y cyngor er mwyn cymryd camau rhagweithiol i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a hybu arferion cynaliadwy ar draws Castell-nedd Port Talbot.

### Y Gymraeg, ei Diwylliant a'i Threftadaeth

Mae ymdrechu i gynnal y Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru yn rhan o wead ein bywydau beunyddiol, fel bod y Gymraeg yn fwy clywadwy a gweladwy yn ein cymunedau.

### Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth

Adeiladu ar ein gwaith i hybu cyfle cyfartal gwirioneddol, mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl, a chreu Castell-nedd Port Talbot sy'n decach ac yn fwy cyfartal.


# Amcanion Llesiant Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mae'r pedwar amcan llesiant a bennwyd yn 2022 yn dod yn uniongyrchol o'n gweledigaeth ac yn parhau'n berthnasol ar gyfer Strategaeth Gorfforaethol 2025/2028. Dyma'r camau nesaf tuag at ein gweledigaeth hirdymor, ond maent hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i wella deilliannau dinasyddion a rhanddeiliaid ehangach yn erbyn cefnlen cyd-destun ariannol heriol yn y tymor canolig (tair blynedd).

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi gwneud cychwyn cadarnhaol o ran gweithio tuag at yr uchelgais honno. Mae modd cyrchu manylion y cynnydd a wnaed hyd yma yn ein hadroddiadau blynyddol.

Mae'n allweddol nodi y bydd setliadau cyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, mynediad at arian grant ar draws y cyngor, a chynhyrchu incwm yn chwarae rhan bwysig yng nghynnydd ein gwaith yn y tymor canolig.

Yn ogystal â'r Strategaeth Gorfforaethol hon, bydd pob gwasanaeth a swyddogaeth yn cyfrannu at y pedwar amcan llesiant trwy gryfhau cynlluniau busnes Penaethiaid Gwasanaeth a threfniadau rheoli perfformiad ar lefel gwasanaeth/gweithredu.



## Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth

Cyflwynir ein hymrwymiad i feithrin cymuned gynhwysol ac amrywiol yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024/2028. Mae'r cynllun yn amlinellu ymrwymiad y cyngor i hybu cyfle cyfartal gwirioneddol, gan fynd i'r afael â gwahaniaethu, a chreu Castell-nedd Port Talbot sy'n decach.

Mae'r cyngor wedi rhoi amrywiol fentrau ar waith i hybu cydraddoldeb rhywedd, gan gynnwys 'Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg Womenspire' a sefydlu'r Grŵp Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig.

Nod sefydlu Grŵp Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig Castell-nedd Port Talbot yw cynyddu ymwybyddiaeth amlddiwylliannol yn y gweithlu, cyfrannu at Strategaeth Gwrth-hiliaeth CNPT, a chymryd camau i hybu newid cadarnhaol. Ar ben hynny, mae ein Hasesiadau Effaith Integredig wedi cael eu cryfhau er mwyn deall yn well effeithiau polisïau a phenderfyniadau ar bobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig.

Mae'r ymdrechion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y cyngor i hybu cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn y gweithle a'r gymuned ehangach.

## Iaith Gymraeg

Fel cyngor, rydyn ni'n parhau i gymryd camau sylweddol i hybu'r Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth. Mae ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2023/2028 yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022/2032 (WESP), ac yn adeiladu arnynt.

Mae'r cyngor yn gweithio gyda sefydliadau a chymunedau lleol i annog defnydd o'r Gymraeg, sy'n cynnwys croesawu digwyddiadau fel Eisteddfod yr Urdd a chydweithio â phartneriaid i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg.

Mae'r cyngor wedi integreiddio'r Gymraeg i'w holl wasanaethau digidol, fel ei bod yn haws i'r trigolion gyrchu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r dudalen "Dysgu a Defnyddio'r Gymraeg" yn adlewyrchu diddordeb cynyddol yn yr iaith ar draws Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r mentrau hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth y cyngor, sef meithrin diwylliant Cymraeg llewyrchus, ac yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd cynnydd o ran ein hymrwymiad i'r Gymraeg, ein dyletswydd sosio-economaidd a chydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael ei gyflwyno wrth fonitro meysydd gwaith trosfwaol y Strategaeth Gorfforaethol a'u hadroddiadau blynyddol.



*Gweithio i greu CNPT mwy llewyrchus, tecach a gwyrddach*

# Y Ddyletswydd Sosio-economaidd

Mae'r Strategaeth Gorfforaethol hon yn pwysleisio pwysigrwydd y ddyletswydd sosio-economaidd yn ei hymgais i greu cymuned fwy llewyrchus, tecach a gwyrddach. Trwy integreiddio'r ddyletswydd sosio-economaidd i'n hamcanion llesiant, ein nod yw rhoi sylw i anghydraddoldeb a gwella canlyniadau i grwpiau difreintiedig er mwyn sicrhau bod yr holl drigolion yn elwa o dwf a datblygiad economaidd.

Mae'r dystiolaeth yn dangos mai'r ardaloedd tlotaf sydd wedi profi'r effaith fwyaf, a hynny o ran effeithiau iechyd ac ariannol.

Bydd cynnydd o ran ein hymrwymiad i'r Gymraeg, ein dyletswydd sosio-economaidd a chydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn cael ei gyflwyno wrth fonitro meysydd gwaith trosfwaol y Strategaeth Gorfforaethol a'u hadroddiadau blynyddol.

Mae'r anghydraddoldeb o ran iechyd a sefyllfa ariannol wedi ehangu ar draws Castell-nedd Port Talbot ers y pandemig, ac mae blaenoriaethu anghenion y bobl fwyaf bregus sy'n byw yn ein cymunedau yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023) yn datgan bod 16% o'r holl oedolion, 4% o'r pensiynwyr a 9% o'r plant yng Nghymru yn cael eu categoreiddio fel rhai difreintiedig yn faterol, sy'n golygu eu bod heb fynediad at eitemau hanfodol a gweithgareddau.

Mae gwaith i gefnogi'r ddyletswydd hon wedi cael ei gwau trwy amrywiol fframweithiau cynllunio'r cyngor, ac mae rhoi sylw i atal tlodi ac anghydraddoldeb yn thema drosfwaol ar draws ein blaenoriaethau tymor byr, canolig a hirdymor.

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC)

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot yn dod ag arweinwyr a llunwyr penderfyniadau ynghyd o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Pwrpas y BGC yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot. Trwy weithio ar y cyd gall y BGC sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o'r materion sy'n bwysig i'r trigolion a chyflawni gwelliannau'n llawer mwy effeithiol ac effeithlon.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot gyntaf yn 2016 ac mae wedi cyhoeddi dau gynllun llesiant, gyda'r diweddaraf ohonynt yn cwmpasu 2023/2028. Yn ogystal â'r cynllun, cynhaliodd y BGC Asesiad Llesiant oedd yn adolygu'r tirlun cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac ar sail hynny, cytunwyd ar bedwar amcan llesiant fydd yn flaenoriaethau i'w gwaith yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae amcanion llesiant y BGC yn cydweddu ag amcanion llesiant y cyngor, er mwyn cael mwy o effaith ar y fwrdeistref sirol.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025 & Datganiad Llesiant

Mae ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn dangos sut mae'r cyngor yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot a'r saith nod llesiant cenedlaethol a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallwn ddangos yn glir trwy'r meysydd gwaith allweddol a gyflwynir yn amcanion llesiant y Strategaeth Gorfforaethol hon ein bod yn gallu cyfrannu at y nodau llesiant ar lefel genedlaethol (dangosir hyn yn y diagram isod).




## Amcanion Llesiant Cyngor Castell-nedd Port Talbot 2025/2028

**ALl 1 –** Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
**ALl 2 –** Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy
**ALl 3 –** Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth
**ALl 4 –** Swyddi a sgiliau

Rydyn ni'n sicrhau bod ein Hamcanion Llesiant yn gyflawnadwy a bod disgwyliadau'r Ddeddf yn cael eu cwmpasu yn ein gwaith cynllunio ariannol, rheoli asedau, asesu risg, rheoli perfformiad a threfniadau craffu.

Byddwn yn monitro cyflawniad y nodau a'r mesurau perfformiad fel y nodir yn ein Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Adroddir ar gynnydd bob chwarter i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Cabinet. Ar ben hynny, adroddir ar gynnydd i'r Pwyllgorau Craffu.

| 7 Nod Llesiant Cenedlaethol | Cyngor CNPT Amcanion Llesiant | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymru gydnerth | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymru iachach | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymru o gymunedau cydlynus | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | 1 | 2 | 3 | 4 |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | 1 | 2 | 3 | 4 |

# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (5 Ffordd o Weithio)

Mae ein nodau ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi'u cyflwyno'n glir o dan bob amcan llesiant, gyda manylion sut byddwn ni'n canolbwyntio ein hymdrechion yn y tymor byr, canolig a hwy.

Datblygwyd y pedwar amcan llesiant yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r gymuned a rhanddeiliaid, a amlygodd themâu clir o ran beth sy'n bwysig i bobl nawr ac yn y tymor hwy. Mae angen gweld y rhain fel amcanion cysylltiedig, yn hytrach na rhaglenni gwaith ar wahân.

Gwneir y cyfraniad i'r saith nod llesiant trwy ein dull o weithio, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n rhan o'r Ddeddf, trwy ystyried y 5 peth canlynol sy'n dangos ein bod wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy:

**Edrych ymlaen i'r tymor canolig a hwy –** mae'r strategaeth gorfforaethol yn cyflwyno ffocws y gwaith allweddol y byddwn ni'n ei wneud yn ystod y tair blynedd nesaf (tymor canolig) a'n huchelgais ar gyfer 20 mlynedd i'r dyfodol (tymor hwy). Rydyn ni wedi cymryd i ystyriaeth ffactorau tirlun sy'n newid yn barhaus, o bersbectif lleol i un byd-eang, a sut gallai hynny effeithio ar lesiant unigolion a llesiant Cymru. Wrth bennu'r uchelgais 20 mlynedd, fe wnaethon ni herio'n hunain i feddwl am sut byddai bywyd yn edrych ymhen cenhedlaeth – nid dim ond i'r rhai sydd heb eu geni eto, ond i bawb sydd eisoes yn fyw a fyddai'n symud i gyfnodau gwahanol o'u bywydau.

**Atal problemau** rhag codi neu waethygu. Mae cynnal llesiant pobl ac atal hynny rhag dirywio wedi'i wreiddio ar draws y strategaeth. Fodd bynnag, bydd y ffaith bod y lefel o adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol yng Nghymru yn lleihau yn rhoi prawf ar ein gallu i gynnal buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliaeth ac ymyrraeth gynnar hanfodol. Ein nod yw amddiffyn hyn i'r eithaf.

**Sicrhau bod ein hamcanion llesiant yn rhyngweithio â'i gilydd,** gan ei fod yn bwysig eu hystyried yn eu crynswth. Mae gwasanaethau'n integreiddio'u gwaith ar draws y cyngor lle mae hynny'n ein galluogi i fwyafu ein heffaith ar yr amcanion llesiant, yn ogystal ag integreiddio a chydweithio â phartneriaid eraill lle mae hynny'n gwneud synnwyr.

**Gweithio mewn partneriaeth ag eraill –** mae'r strategaeth yn rhagweld dull 'un cyngor' o ymdrin â chyflawni ein pwrpas, ein gweledigaeth a'r pedwar amcan llesiant. Nodir cydweithio hefyd fel un o werthoedd craidd y sefydliad. Mabwysiadodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr amcanion llesiant i sicrhau dull gweithredu 'un lle' i Gastell-nedd Port Talbot ac rydym eisoes yn gweld manteision alinio ar draws y ddau gynllun allweddol. Mae cynnydd amlwg i'w weld trwy gyfeirio adnoddau craidd y sefydliadau cyfranogol at yr amcanion llesiant. Mae'r strategaeth gorfforaethol hon yn nodi partneriaethau allweddol eraill sy'n cefnogi ein pwrpas, ein gweledigaeth a'n hamcanion llesiant.

**Cynnwys pobl leol –** bu pwyslais sylweddol ar hyn ac rydym yn datblygu ein hymarfer o ran cydgynhyrchu, a chyfranogiad, ar draws nifer cynyddol o wasanaethau a swyddogaethau. Mae hyn yn cwmpasu ein trefniadau cyflogaeth, lle rydyn ni'n datblygu ystod ehangach o fecanweithiau llais y cyflogai, gyda phwyslais arbennig ar gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth.

# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Daeth Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i rym ar 1 Ebrill 2024.
Mae'r ddyletswydd o dan y Ddeddf yn gofyn ein bod yn dod i gonsensws neu gyfaddawd gydag undebau llafur cydnabyddedig wrth bennu a chyflawni ein hamcanion llesiant.

Mae partneriaeth gymdeithasol yn ddull gweithredu rydyn ni wedi'i wreiddio yn ein sefydliad ers cychwyn cyntaf y cyngor. Mae gennym arfer eisoes o ymgynghori a chynnwys ein hundebau llafur cydnabyddedig yn ein trefniadau cynllunio corfforaethol, a byddwn yn awr yn addasu'r trefniadau hynny i sicrhau eu bod yn ymateb yn llawn i'r dyletswyddau cyfreithiol newydd.

Ymgynghorwyd ag undebau llafur yng nghyfnodau datblygu cynnar y strategaeth gorfforaethol, ac mae eu hadborth wedi cael ei ymgorffori yn y strategaeth hon, a'r Cynllun Busnes Pennaeth Gwasanaeth sy'n sylfaen iddo. Ar adeg cyhoeddi'r strategaeth hon, cytunwyd ar gonsensws o ran cynnwys y strategaeth a'r manylion sy'n amlinellu sut mae'r cyngor yn bwriadu cyflawni ei amcan llesiant yn ystod y tair blynedd nesaf (i'w gadarnhau cyn y Cabinet).

Amlygodd adborth gan ein partneriaid undebau llafur fod y strategaeth gorfforaethol yn arddangos ymrwymiad cadarn i gynhwysiant, tegwch, a gwerthoedd cymunedol, yn ogystal â gweledigaeth hirdymor ar gyfer y cymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot.

Mae prosesau caffael wedi cael eu diwygio ochr yn ochr â'r Ddeddf, gyda ffocws ar gaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol. Fel awdurdod lleol, bydd dyletswydd arnon ni i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal trwy wneud ein gwaith caffael cyhoeddus mewn modd cymdeithasol gyfrifol. Datblygwyd y ddyletswydd hon trwy ein strategaeth gaffael a thrwy bennu amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol.

# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethiant, perfformiad a gweithio ar y cyd.

Mae'r cyngor yn cwblhau hunanasesiadau blynyddol yn unol â'r Ddeddf. Mae'r hunanasesiad yn fframwaith adrodd ar gyfer mesur i ba raddau mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad (ymarfer ein swyddogaethau'n effeithiol; defnyddio ein hadnoddau'n ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol; a bod ein trefniadau llywodraethiant yn effeithiol) er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein cymunedau. Mae'r hunanasesiad wedi llywio'r blaenoriaethau a gyflwynir yn y strategaeth hon, a thrwy weithio mewn partneriaeth â chynghorau eraill yng Nghymru, byddwn ni'n meincnodi ein cynnydd yn allanol. Bydd ein cynnydd hefyd yn cael ei fesur pan fyddwn yn cynnal ein Hasesiad Perfformiad Panel, gofyniad arall a geir yn y Ddeddf.

Y trefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad er mwyn ymadfer yn llawn wedi cyfnod y pandemig, a hefyd i ymateb i ddyletswyddau newydd o dan y ddeddfwriaeth hon.

# Ein Gweledigaeth Hirdymor ar gyfer Castell-nedd Port Talbot

Ers etholiadau 2022 rydyn ni wedi datblygu darlun cliriach o'r hyn sy'n bwysig i'n cymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot. Mae rhai meysydd allweddol rydyn ni'n canolbwyntio arnynt lle mae angen i ni ddangos ein hymrwymiad hirdymor.

Pobl – Yn ystod yr ugain mlynedd nesaf ein nod yw lleihau anghydraddoldeb o ran iechyd, addysg a deilliannau cymdeithasol ac economaidd, gan sicrhau bod pob plentyn, person ifanc, oedolyn a theulu yn cael mynediad at gymorth cynnar a gwasanaethau cefnogi o safon uchel ar yr adeg gywir.

Ein gweledigaeth yw meithrin diwylliant a rennir ar draws y fwrdeistref sirol sy'n cefnogi dyheadau ac uchelgais i bawb, yn sicrhau bod plant ac oedolion yn ymwneud â dysgu a chyflogaeth, ac yn cefnogi unigolion a theuluoedd i symud allan o dlodi a sicrhau lefel uwch o lesiant.

Bydd ein ffocws cryf ar gyflogadwyedd yn cefnogi pawb sydd angen cymorth i gael hyd i waith. Byddwn ni'n parhau i uwchsgilio'r gweithlu lleol, gan sicrhau bod mwy o bobl yn meddu ar gymwysterau.

Byddwn ni'n meithrin gweithlu lleol medrus, cydnerth, gan leihau cyfraddau'r aelwydydd di-waith a'r unigolion economaidd segur i gyfradd Cymru neu'n is. Ein nod yw meithrin partneriaethau cryf rhwng y cyngor, y gymuned fusnes, pobl leol, a rhanddeiliaid ehangach, gan gryfhau sylfaen ein llwyddiant.



**Lle –** Byddwn ni'n creu cymunedau cynhwysol, hygyrch, dymunol, glân, diogel a gwyrdd lle gall trigolion fyw, gweithio, siopa a mwynhau eu hamser hamdden. Bydd ein cymunedau'n groesawgar ac yn parchu pobl, ac yn fannau lle mae pob unigolyn yn cael ei gynnwys ac yn cael llais cyfartal, gyda mynediad at y gwasanaethau o safon sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd pob dydd.

Byddwn ni'n darparu mynediad at dai fforddiadwy, o safon dda, ac yn sicrhau bod gan bobl gysylltiadau da yn eu cymunedau ac â'r byd ehangach trwy wasanaethau digidol a rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus rhagorol. Byddwn ni'n meithrin sylfaen gadarn ac amrywiol o fentrau bach a chanolig yn y fwrdeistref sirol, gyda chefnogaeth adnoddau, safleoedd a chyllid sy'n cael eu cydlynu'n dda, ac yn cyflawni manteision economaidd sylweddol trwy ddatgarboneiddio diwydiant, tai a thrafnidiaeth, fel bod yr ardal yn fodel ar gyfer ynni glân, adnewyddadwy.

Bydd Castell-nedd Port Talbot yn enwog am ymdeimlad cryf o berthyn trwy dreftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant. Bydd y trigolion yn ymwneud yn rhagweithiol ag ymdrechion cadwraeth i wyrdroi'r dirywiad mewn bywyd gwyllt, i wella cyflwr ein safleoedd mwyaf gwerthfawr, a'u cysylltu trwy rwydwaith o goridorau gwyrdd, gan ddatblygu mwy o allu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Byddwn ni'n cynyddu atyniad ein hardal fel cyrchfan i ymwelwyr, gan annog ymddygiad cyfrifol er budd ein cymunedau a'n hamgylchedd lleol, ochr yn ochr â chreu cymuned fywiog lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd pob dydd, a lle mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn trysori'r amgylchedd naturiol.

Byddwn ni'n mwyafu buddsoddiad, gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol trwy gaffael strategol a phartneriaethau, gan sicrhau enillion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i drigolion, busnesau a chymunedau lleol.

1

AMCAN LLESIANT 1

# Dechrau gorau mewn bywyd

*Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd*



# Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd- Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae mwy nag un o bob tri phlentyn yng Nghastell-nedd Port Talbot yn byw o dan y llinell dlodi, 33% o blant yng Nghastell-nedd a 35% ym Mhort Talbot (Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant);

- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn dal i wynebu heriau o ganlyniad i'r pandemig. Maen nhw'n profi'r effaith ar wahanol adegau ac mewn amrywiol ffyrdd, gan gynnwys amharu ar ddysgu, datblygiad cymdeithasol a llesiant corff a meddwl. Rhoddwyd gwasanaethau cymorth parhaus megis adnoddau iechyd meddwl a chymorth addysgol yn eu lle i roi sylw i'r materion hyn;

- Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, mae 14 (15.4%) o'r 91 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tair ohonynt (3.3%) ymhlith y 10% lleiaf difreintiedig;

- Yn 2024/2025, derbyniodd rhyw 2000 o blant gefnogaeth gan wasanaethau a ariannir gan Dechrau'n Deg, gyda 1383 o blant yn cyrchu gofal plant a ariannwyd gan Dechrau'n Deg. Mae hyn yn gynnydd o 254 o blant o gymharu â 2023/2024. Mae'r rhaglen bellach yn cyrraedd rhyw draean o'r awdurdod lleol, ac mae'r rhaglen estyn allan dargedig ar gael ar sail angen i Gastell-nedd Port Talbot gyfan;

- Mae gormod o blant a phobl ifanc yn dal i gael eu gwahardd o ysgolion am gyfnod penodol ac yn barhaol;

- Mae'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel y Disgybl (PLASC) ar gyfer 2023 yn nodi bod gan 15.7% o boblogaeth ysgolion Castell-nedd Port Talbot anghenion addysgol arbennig/anghenion dysgu ychwanegol, o gymharu ag 13.4% yn genedlaethol. Mae cymhlethdod yr anghenion yn parhau i gynyddu;

- O ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, mae ysgolion ar draws Castell-nedd Port Talbot, a Chymru yn gyffredinol, yn cael eu hunain mewn sefyllfa heriol o ran cyllideb wrth iddyn nhw geisio ymateb i'r galwadau hyn.

- Derbyniodd 16.9% (3,536) o'r disgyblion eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ôl PLASC 2023, y ganran uchaf erioed yng Nghastell-nedd Port Talbot ar sail ffigurau sy'n mynd yn ôl i 2007. Roedd hyn yn cynnwys 17.4% (2,130) o'r plant oed cynradd ac 16.0% (1,406) o'r disgyblion oed uwchradd, gyda'r canrannau yn y naill sector a'r llall yn codi'n flynyddol;

- Roedd 29.9% o'r plant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2021/22; a

- Chadw ein lle fel y gwasanaeth gweithgarwch corfforol sy'n perfformio orau yng Nghymru, gyda 46% o ddisgyblion yn gwneud gweithgaredd dair gwaith yr wythnos neu fwy.



# Ein Nodau Strategol 2025/2028

Mae ein gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni ein hamcanion llesiant wedi cael ei gyflwyno yn y Strategaeth Gorfforaethol hon. Fe'i cefnogir gan gynlluniau busnes Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd â strategaethau a chynlluniau a gynhyrchir mewn cydweithrediad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

| **Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n cyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Castell-nedd Port Talbot. Byddwn ni'n cyflawni hynny trwy'r canlynol:** | |
|---|---|
| • Atal ac amddiffyn plant rhag risg a niwed, a hyrwyddo'u lles (1.1) | • Bydd plant a theuluoedd yn cael mynediad i'r gefnogaeth gywir, ar yr adeg gywir (1.2) |
| • Sicrhau bod plant ag anableddau a'u teuluoedd/gofalwyr yn gallu cael mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gynhwysol ac yn ymateb i'w hanghenion (1.3) | • Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn tyfu i fyny mewn cartref diogel, addas (1.4) |
| • Sicrhau bod ein plant ifancaf wedi'u paratoi'n well ar gyfer pontio i fyd addysg (1.5) | • Parhau i estyn a gwreiddio diwygio addysg, gan gynnwys deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cwricwlwm i Gymru, er mwyn codi safonau ar draws ein hysgolion i bob dysgwr (1.6) |
| • Cefnogi ysgolion i wella cyfraddau presenoldeb disgyblion (1.7) | • Cefnogi ysgolion i leihau nifer y disgyblion sy'n destun gwaharddiad (cyfnod penodol a pharhaol) (1.8) |
| • Darparu cefnogaeth ymatebol o safon uchel i arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys sefydlu, staff cymorth, hyfforddiant arwain, etc (1.9) | • Sicrhau ein bod yn darparu'r drafnidiaeth fwyaf cost effeithiol ac effeithlon o'r cartref i'r ysgol, gan ddiwallu anghenion ein dysgwyr (1.10) |
| • Darparu cefnogaeth o safon uchel i addysgu, gan gefnogi esblygiad addysgeg a sut mae cynllunio ar gyfer dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru (1.11) | • Sicrhau bod datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth yn y Rhaglen Strategol i Ysgolion (1.12) |
| • Datblygu llwybrau i bobl ifanc symud ymlaen i waith, addysg bellach neu hyfforddiant ar ddiwedd eu haddysg statudol (1.13) | • Mwy o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a theuluoedd/gofalwyr yn gallu dysgu, ymwneud ac elwa o'r Gymraeg fel cyfrwng (1.14) |
| • Sicrhau bod cyfleoedd chwarae, gweithgarwch corfforol a hamdden o safon uchel, sy'n hygyrch ac yn amrywiol, ar gael i blant a phobl ifanc (1.15) | |

# Sut byddwn ni'n monitro cynnydd

Er mwyn monitro ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion llesiant a'n nodau tair blynedd, byddwn ni'n casglu data ynghylch y mesurau canlynol. Ar ben hynny, bydd Cynlluniau Busnes Penaethiaid Gwasanaeth yn crisialu mesurau gweithredu a lefel uchel yr adroddir arnynt bob chwarter.

## Mesurau Perfformiad

| Monitro ein cynnydd |
|---|
| • Nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael / nifer y lleoedd gofal plant a ddefnyddir |
| • Cynnydd mewn presenoldeb yn yr ysgo |
| • Gostyngiad yng ngwaharddiadau disgyblion |
| • Nifer (canran) y disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg |
| • Gostwng % yr ymadawyr blwyddyn 11 sy'n NEET |
| • Cynyddu nifer/canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael gyda chymwysterau |
| • Cynyddu nifer y lleoedd chwarae sy'n cael eu hadnewyddu, yn amodol ar gyllid |
| • Lleihau nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) |
| • Cynyddu nifer y gofalwyr maeth proffesiynol a phrif ffrwd sy'n cael eu recriwtio |
| • Cynyddu nifer yr atgyfeiriadau i'r panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth a gwasanaethau'r Tîm o Gwmpas y Teulu |
| • Nifer y cynlluniau Gofal a Chymorth sy'n dod yn gynlluniau amddiffyn plant a/neu dderbyn gofal |

# Ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth?

## Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Mae adborth yn hanfodol i'n cyngor. Mae'n ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei rhannu gydag uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn wir yn adlewyrchu profiadau ac anghenion personol. Trwy ddeall adborth cwsmeriaid a gwasanaethau, gallwn ni werthuso effaith ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn well.

Mae casglu adborth hefyd yn gyfle i ni ddangos sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau'r cyngor yn ddoeth ac yn glynu at egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn gryno, mae eich mewnbwn yn ein helpu i wella ac i sicrhau ein bod ni'n cynnig gwerth am arian.

| ***Arolwg Blynyddol y Trigolion*** |
|---|
| At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar ddarpariaeth y cyngor o ran:<br><br>• **Addysg** (ysgolion, trafnidiaeth i'r ysgol a dysgu i oedolion)<br>• **Gwasanaethau Cymdeithasol** (darparu cefnogaeth, amddiffyniad a gofal i blant ac oedolion sy'n fregus / sydd ag anabledd |
| Dywedwch wrthyn ni am eich profiad:<br>• **Wrth wneud cais am le mewn ysgol** |

## Cerrig Milltir Cenedlaethol i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 17 o gerrig milltir cenedlaethol i olrhain cynnydd tuag at 7 nod llesiant. Bydd y cerrig milltir isod yn cael eu cefnogi gan y cynnydd a wneir o dan Amcan Llesiant 1.

- Cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i fwy na 99% erbyn 2050
- Bydd o leiaf 90% o'r bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050

2

AMCAN LLESIANT 2

# Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy

*Mae pobl yn byw bywydau iach, hir a da mewn cymunedau llewyrchus, cynaliadwy lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn cefnogi ei gilydd*



# Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy - Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae'r argyfwng costau byw wedi cael effaith niweidiol ar lawer o bobl, gyda mwy o bobl yn mynd yn unig ac yn ynysig. Mae'r effaith yn dal yn anghymesur ar bobl ifanc, menywod ac unigolion o gefndiroedd BME
- Roedd 142,300* o bobl yn byw yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2021. Mae disgwyl i hyn godi i 147,000 erbyn canol y 2030au
- Mae nifer yr unigolion sydd wedi ymddeol yn parhau i gynyddu, tra bod nifer y bobl ifanc yn gostwng. Mae'r newid demograffig yma yn achosi heriau i'r gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol
- Mae pobl yn byw'n hwy ac yn byw bywydau iachach, ond mae hyd oes disgwyliedig a hyd oes iach disgwyliedig yn is nag yng ngweddill Cymru. Mae'r bwlch rhwng y rhai gorau a gwaethaf eu byd yn sylweddol
- Rydyn ni'n disgwyl gweld cynnydd o 35% yn y rhai 65+ oed a fydd yn byw ar eu pen eu hunain erbyn 2035
- Castell-nedd Port Talbot sydd â'r gyfran drydedd uchaf yn y wlad o drigolion y nodwyd bod ganddynt anabledd a chyfyngiadau sylweddol, a'r ail gyfran uchaf o drigolion y nodwyd bod ganddynt anabledd a rhywfaint o gyfyngiadau
- Amcangyfrifir bod dros 20,000 o ofalwyr di-dâl yn y fwrdeistref sirol
- Mae'r galw am dai ar draws pob deiliadaeth yn uwch na'r cyflenwad sydd ar gael, ac mae hynny'n arwain at gynnydd mewn costau tai. Mae angen ar frys am fwy o dai fforddiadwy, o safon uchel

**Data a gymerwyd o'r Cyfrifiad 2021



# Ein Nodau Strategol 2025/2028

Mae ein gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni ein hamcanion llesiant wedi cael ei gyflwyno yn y Strategaeth Gorfforaethol hon. Fe'i cefnogir gan gynlluniau busnes Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd â strategaethau a chynlluniau a gynhyrchir mewn cydweithrediad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

| **Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n cyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Castell-nedd Port Talbot. Byddwn ni'n cyflawni hynny trwy'r canlynol:** | |
|---|---|
| • Cefnogi'r rhai sy'n byw mewn tlodi, neu mewn perygl o fod yn y sefyllfa honno (2.1) | • Gwella gwasanaethau i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi neu eu cymunedau eu hunain yn hwy (2.2) |
| • Sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cymunedol i drigolion ag anableddau ac anghenion cymhleth (2.3) | • Gweithio i sicrhau bod gan drigolion fynediad at dai cynaliadwy o safon uchel, ac atal digartrefedd (2.4) |
| • Cefnogi datblygiad grwpiau cymunedol, hybiau a mynediad at gyfleoedd i wirfoddoli (2.5) | • Cefnogi ein cymunedau i ddatblygu a rhoi llais i drigolion fel eu bod yn rhan o fywyd a phenderfyniadau cymunedol (2.6) |
| • Cryfhau'r hyn sydd gennym ni i'w gynnig o ran chwaraeon a hamdden mewn partneriaeth, er mwyn sicrhau bod gan ein cymuned fynediad at gyfleusterau a mentrau o safon uchel, sydd o fudd i'w lles corfforol (2.7) | • Gwneud ein llyfrgelloedd yn ganolbwynt yn eu cymunedau, gan ddatblygu creadigrwydd, gwell hygyrchedd a chyfleoedd addysg (2.8) |
| • Datblygu ymhellach, adfywio a buddsoddi yn ein holl gymunedau, gan gynnwys asedau hanfodol a seilwaith (2.9) | • Casglu gwastraff a deunyddiau, lleiafu tirlenwi, mwyafu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio, a chyfrannu at economi gylchol (2.10) |
| • Yn amodol ar gyllid, parhau i wella ein llwybrau cerdded a beicio (2.11) | • Rheoli perygl llifogydd yn ein cymunedau yng ngoleuni glawiad eithafol (2.12) |
| • Meithrin cymuned ddiogel, wydn a chynhwysol, gwella diogelwch y cyhoedd i sicrhau bod pob preswylydd yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth, gan gyfrannu at ansawdd bywyd uchel ac ymdeimlad cryf o lesiant cymunedol (2.13) | |

# Sut byddwn ni'n monitro cynnydd

Er mwyn monitro ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion llesiant a'n nodau tair blynedd, byddwn ni'n casglu data ynghylch y mesurau canlynol. Ar ben hynny, bydd Cynlluniau Busnes Penaethiaid Gwasanaeth yn crisialu mesurau gweithredu a lefel uchel yr adroddir arnynt bob chwarter.

## Mesurau Perfformiad

| **Monitro ein cynnydd** |
| --- |
| • Canran y bobl sydd â phecyn gofal llai / heb becyn gofal yn dilyn ailalluogi |
| • Nifer yr oedolion 65+ fesul 10,000 o boblogaeth sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned (plws ffigur ar wahân ar gyfer cartrefi gofal) |
| • Nifer yr eiddo tai cymdeithasol newydd a gafodd eu datblygu neu eu caffael yn ystod y flwyddyn |
| • 60% o'r bobl y mae dyletswydd digartrefedd statudol tuag atynt yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref |
| • Lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro |
| • Cynyddu nifer y defnyddwyr llyfrgelloedd a reolir gan y cyngor |
| • Cynnydd o 2% yn nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg o'r llyfrgell a'u lawrlwytho bob blwyddyn |
| • Cynyddu canran glendid strydoedd |
| • Canran y mân geisiadau cynllunio a gyflawnir yn brydlon |
| • Canran y ceisiadau cynllunio mawr dilys a gyflawnir yn brydlon |
| • Gostwng nifer yr eiddo sy'n dioddef llifogydd |
| • Canran y ceudyllau sy'n cael eu riportio a'u trwsio |
| • Gwella ansawdd aer |
| • Cynyddu (Canran) y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio |

# Ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth?

## Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Mae adborth yn hanfodol i'n cyngor. Mae'n ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei rhannu gydag uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn wir yn adlewyrchu profiadau ac anghenion personol. Trwy ddeall adborth cwsmeriaid a gwasanaethau, gallwn ni werthuso effaith ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn well.

Mae casglu adborth hefyd yn gyfle i ni ddangos sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau'r cyngor yn ddoeth ac yn glynu at egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn gryno, mae eich mewnbwn yn ein helpu i wella ac i sicrhau ein bod ni'n cynnig gwerth am arian.

| ***Arolwg Blynyddol y Trigolion*** |
|---|
| At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar ddarpariaeth y cyngor o ran:<br><br>**Tai** (tai cyngor a chymorth i'r digartref)<br>**Gwasanaethau Cymdeithasol** (darparu cefnogaeth, amddifyniad a gofal i blant ag oedolion sy'n agored i niwed/sydd ag anabledd)<br>**Priffyrdd a thrafnidiaeth** (ffyrdd, traffig, llwybrau beicio a llwybrau troed)<br>**Rheoli gwastraff** (casglu gwastraff ac ailgylchu o ymyl y ffordd, a chynnal canolfan ailgylchu ac ailddefnyddio)<br>**Iechyd amgylcheddol a gwasanaethau (Diogelwch bwyd, iechyd amgylcheddol a gwasanaethau** (diogelwch bwyd, rheoli llygredd, llifogydd)<br>**Cynllunio a rheoli adeiladu** (datblygu adeiladau newydd, cadwraeth, diogelwch adeiladau) |
| At ei gilydd pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar eich ardal leol fel lle i fyw? |
| Gofynnir i chi nodi i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r gosodiadau canlynol:<br>• Rwy'n teimlo mod i'n rhan o'm hardal leol<br>• Mae pobl yn fy ardal leol yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd<br>• Mae pobl yn fy ardal leol yn cyd-dynnu i wella'r ardal leol<br>• Mae fy ardal leol yn cael gofal da<br>• Mae amgylchedd glân yn fy ardal leol<br>• Mae ansawdd yr aer yn dda yn fy ardal leol<br>• Mae digon o fannau wyrdd yn fy ardal leol |

# Ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth?

## Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth parhau

| *Arolwg Blynyddol y Trigolion* |
| --- |
| Pa mor ddiogel neu anniogel ydych chi'n teimlo yn yr awyr agored yn eich ardal leol yn ystod y dydd? |
| Pa mor ddiogel neu anniogel ydych chi'n teimlo yn yr awyr agored yn eich ardal leol ar ôl iddi dywyllu? |
| Fyddech chi'n argymell Castell-nedd Port Talbot fel lle i fyw? |

### Cerrig Milltir Cenedlaethol i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 17 o gerrig milltir cenedlaethol i olrhain cynnydd tuag at 7 nod llesiant. Bydd y cerrig milltir isod yn cael eu cefnogi gan y cynnydd a wneir o dan Amcan Llesiant 1.

- Cynyddu i 97% erbyn 2050 ganran yr oedolion sydd â dwy enghraifft neu fwy o arferion ymddygiad ffordd iach o fyw
- Cynyddu hyd oes iach disgwyliedig oedolion a chau'r bwlch o leiaf 15% o ran hyd oes iach disgwyliedig y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig erbyn 2050
- Lleihau'r bwlch tlodi rhwng pobl yng Nghymru sydd â rhai nodweddion gwarchodedig ac allweddol penodol (sy'n golygu mai nhw yw'r mwyaf tebygol o fod mewn tlodi) a'r rhai sydd heb y nodweddion hynny erbyn 2035. Ymrwymo i bennu targed ymestynnol ar gyfer 2050.

3

AMCAN LLESIANT 3

## Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth

*Caiff prosesau naturiol eu hadfer, ac maen nhw'n lleddfu'r newid yn yr hinsawdd ac yn datblygu mwy o wydnwch yn wyneb ei effaith. Mae pobl yn mynd ati'n weithredol i ddiogelu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd naturiol ysgubol, trysori'r iaith Gymraeg, ac ymgysylltu'n weithredol â threftadaeth chwaraeon, diwylliant a diwydiant gyfoethog yr ardal*



# Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth - Pam mae hyn yn bwysig?

- Rydyn ni eisiau i Gastell-nedd Port Talbot ddod yn gyrchfan a gydnabyddir yn genedlaethol, gydag enw da am arlwy amrywiol, hygyrch o safon o ran chwaraeon, treftadaeth, y celfyddydau a diwylliant i ymwelwyr a thrigolion

- Bydd ein harlwy diwylliannol rhagorol yn cyfrannu at wella llesiant pawb. Bydd ein diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a bydd y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth yn creu swyddi medrus sy'n rhoi boddhad, yn gwella iechyd pobl, ac yn tyfu ein heconomi mewn ffordd gynaliadwy

- Mae ein heconomi ymwelwyr wedi tyfu mwy nag 14% rhwng 2010 a 2019;

- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig iawn o'n treftadaeth a'n diwylliant. Rydyn ni'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050, sef sicrhau miliwn o bobl sy'n gallu mwynhau siarad Cymraeg erbyn 2050

- Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o 142,300, y mae 13.5% ohonyn nhw'n siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021). Gostyngodd y ffigur hwn o 15.3% yn 2011;

- Daw pobl o bedwar ban byd i brofi ein hamgylchedd, sy'n annatod glwm wrth iaith a diwylliant Cymru. Er bod gan yr ardal lawer o gryfderau, mae hefyd yn profi lefelau cymharol uchel o dlodi, amddifadedd, afiechyd ac anabledd. Mae ffocws cryf ar annog pobl o bob oed ac o bob cefndir i fabwysiadu ffyrdd actif o fyw er mwyn gwella llesiant corfforol ac emosiynol

- Ni fu pwysigrwydd amddiffyn ein hamgylchedd naturiol erioed mor amlwg. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad swyddogol ynghylch Argyfwng Hinsawdd yn 2019, ac Argyfwng Byd Natur yn 2021, gan gydnabod arwyddocâd y ddwy her, sy'n gysylltiedig â'i gilydd, a bod mynd i'r afael â nhw yn fater brys

- Gwnaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot hefyd ddatganiad ynghylch argyfwng yr hinsawdd yn 2022, sy'n golygu bod y cyngor wedi ymrwymo'n swyddogol i alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i ddarparu'r pwerau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn dod yn garbon niwtral erbyn 2030;

- Mae'r amgylchedd naturiol yn hanfodol i'n cymunedau, ac yn darparu ar gyfer ein holl anghenion sylfaenol ac ansawdd bywyd gwell. Mae'n rhoi cyfleoedd i ni fwynhau'r awyr agored a harddwch a threftadaeth naturiol Cymru, fel bod pobl yn gallu dewis bod yn fwy actif yn gorfforol; ac

- Mae Partneriaeth Natur Leol (LNP) CNPT wedi cynnal asesiad o Gyflwr Byd Natur yn CNPT. Cafodd y cynefinoedd eu grwpio'n 11 categori bras (e.e. coetir, arfordir, etc.), a gwaetha'r modd, o'r 11 categori yma o gynefinoedd, dim ond dau a aseswyd fel rhai oedd yn cyflawni gwydnwch 'da' o ran ecosystemau.

# Ein Nodau Strategol 2025/2028

Mae ein gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni ein hamcanion llesiant wedi cael ei gyflwyno yn y Strategaeth Gorfforaethol hon. Fe'i cefnogir gan gynlluniau busnes Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd â strategaethau a chynlluniau a gynhyrchir mewn cydweithrediad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

| **Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n cyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Castell-nedd Port Talbot. Byddwn ni'n cyflawni hynny trwy'r canlynol:** |
|---|
| • Codi proffil Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan bywiog i ymwelwyr (3.1) |
| • Datblygu dull gweithredu cadarn o ran darparu cyfleusterau hamdden, chwarae, diwylliant a threftadaeth i bawb (3.2) |
| • Gweithio i helpu byd natur i ymadfer a gwella ansawdd ein hamgylchedd naturiol a mynediad iddo (3.3) |
| • Annog pobl i siarad a mwynhau'r iaith Gymraeg trwy ddarparu cyfleoedd i bawb ddysgu, gwerthfawrogi a ffurfio'u bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg (3.4) |
| • Datgarboneiddio beth rydyn ni'n ei wneud ar draws y cyngor a'n cymunedau (3.5) |
| • Gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i ennyn mwy o ymdeimlad o stiwardiaeth, a'u hannog i chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith parhaus i reoli a gwella eu hamgylchedd lleol a'r gymuned ehangach (3.6) |



# Sut byddwn ni'n monitro cynnydd

Er mwyn monitro ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion llesiant a'n nodau tair blynedd, byddwn ni'n casglu data ynghylch y mesurau canlynol. Ar ben hynny, bydd Cynlluniau Busnes Penaethiaid Gwasanaeth yn crisialu mesurau gweithredu a lefel uchel yr adroddir arnynt bob chwarter.

| **Monitro ein cynnydd** |
| --- |
| Cynyddu effaith economaidd ymwelwyr ar Gastell-nedd Port Talbot |
| Cynyddu nifer yr aelodau mewn canolfannau hamdden trwy ein partner cyflwyno Celtic Leisure |
| Cynyddu nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cefnogi a'u rheoli dros gyfnod o 3 blynedd |
| Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws Castell-nedd Port Talbot |
| Cynyddu nifer y cyflogeion yn y cyngor sy'n dweud eu hunain eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n weddol rugl |
| Cynyddu nifer y cyflogeion yn y cyngor sy'n dweud eu hunain eu bod yn dysgu Cymraeg |
| Lleihau allyriadau CO2 gweithrediadau'r cyngor yn flynyddol, er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r agenda sero net |
| Cynnydd yn nifer y pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan a osodwyd ar draws CNPT |
| Cynnydd yng nghyfanswm nifer y cynlluniau ynni ac ynni adnewyddadwy mewn ysgolion |

# Ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth?

## Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Mae adborth yn hanfodol i'n cyngor. Mae'n ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei rhannu gydag uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn wir yn adlewyrchu profiadau ac anghenion personol. Trwy ddeall adborth cwsmeriaid a gwasanaethau, gallwn ni werthuso effaith ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn well.

Mae casglu adborth hefyd yn gyfle i ni ddangos sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau'r cyngor yn ddoeth ac yn glynu at egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn gryno, mae eich mewnbwn yn ein helpu i wella ac i sicrhau ein bod ni'n cynnig gwerth am arian.

| ***Arolwg Blynyddol y Trigolion*** |
| --- |
| At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar ddarpariaeth y cyngor o ran:<br><br>**Gwasanaethau hamdden, diwylliant a thwristiaeth –** darparu llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a lleoliadau i'r celfyddydau |

### Cerrig Milltir Cenedlaethol i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 17 o gerrig milltir cenedlaethol i olrhain cynnydd tuag at 7 nod llesiant. Bydd y cerrig milltir isod yn cael eu cefnogi gan y cynnydd a wneir o dan Amcan Llesiant 3.

- Sicrhau cynnydd o 10% yng nghanran y bobl sy'n gwirfoddoli erbyn 2050, gan ddangos statws Cymru fel cenedl sy'n gwirfoddoli
- Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Gwyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030, ac adferiad amlwg iddynt erbyn 2050
- Bydd Cymru'n cyflawni sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050

4

AMCAN LLESIANT 4

# Swyddi a Sgiliau

*Trwy weithio gyda'n partneriaid rydyn ni'n creu'r amodau i sicrhau mwy o waith sicr, gwyrdd, am gyflog da yn yr ardal, ac yn cefnogi pobl leol i lenwi'r swyddi hynny*



# Swyddi a Sgiliau -
# Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae byd gwaith yn newid yn gyflym iawn, yn sgîl yr amharu a achoswyd gan y ffrwydriad yn natblygiad technoleg ddigidol, ac yn awr yn sgîl yr ymateb i argyfwng yr hinsawdd; achosodd y pandemig sioc economaidd ar draws yr economi, ac effeithio ar fusnesau mewn ffyrdd gwahanol iawn
- Mae gan CNPT sylfaen weithgynhyrchu gadarn, unigryw, sy'n cynnwys ystod eang o fentrau BaCh lle mae angen diogelu cyflogaeth
- Mae ein treftadaeth ddiwydiannol yn cynnwys cynhyrchydd dur mwyaf y Deyrnas Unedig, y mae eu cynlluniau i ddatgarboneiddio a phontio i sero net yn parhau i gael effaith sylweddol ar bobl, busnesau a chymunedau lleol
- Mae gan CNPT nifer o safleoedd cyflogaeth strategol ac mae hynny'n cynnig llawer o gyfleoedd i gyflawni twf economaidd, gan gynnwys swyddi newydd gwyrdd wrth i ddiwydiant a chymdeithas ddatgarboneiddio, ac i ddiwydiannau newydd fel Ynni Gwynt sy'n Arnofio oddi ar y Lan, cynhyrchu Hydrogen a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill ddod i'r amlwg
- Mae gan yr ardal gysylltiadau da trwy'r rheilffordd a'r ffyrdd, tra bod yr harbwr dŵr dwfn yn ased strategol wrth gyflawni buddsoddiadau allweddol megis Prosiect y Môr Celtaidd
- Mae'r economi leol yn dibynnu i raddau helaeth ar fusnesau micro a Mentrau BaCh – mae 88% o'r busnesau lleol yn cyflogi llai na deg o weithwyr
- Mae cyfraddau cychwyn busnesau a goroesiad busnesau yn debyg i gyfartaledd Cymru; ac
- Mae llawer o bobl yn cymudo allan o'r ardal i weithio



# Ein Nodau Strategol 2025/2028

Mae ein gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni ein hamcanion llesiant wedi cael ei gyflwyno yn y Strategaeth Gorfforaethol hon. Fe'i cefnogir gan gynlluniau busnes Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd â strategaethau a chynlluniau a gynhyrchir mewn cydweithrediad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

## Ein Nodau 3 Blynedd

| **Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n cyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Castell-nedd Port Talbot. Byddwn ni'n cyflawni hynny trwy'r canlynol:** |
|---|
| • Parhau i ddatblygu a gwella ein heconomi leol, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu elwa o bob cyfle (4.1) |
| • Denu buddsoddiad a chreu swyddi cynaliadwy ar draws yr economi, gan gynnwys sefydlu'r Porthladd Rhydd Celtaidd ar draws Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro (4.2) |
| • Mwyafu'r cyfleoedd o gyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu ein heconomi (4.3) |
| • Cefnogi'r rhai y mae trefniadau pontio Tata Steel UK wedi effeithio arnyn nhw (4.4) |
| • Mwyafu cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru er mwyn cefnogi mynediad i waith, lleihau allyriadau ac ymateb i anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr (4.5) |
| • Parhau i gryfhau'r gweithio mewn partneriaeth er mwyn uwchsgilio'r rhai sydd eisoes mewn gwaith neu sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith (4.6) |
| • Bydd gan fwy o bobl leol gymwysterau (4.7) |
| • Cynnal ffocws cryf ar gyflogadwyedd i gefnogi'r rhai sydd angen help i gael hyd i waith, gan gynnwys y rhai anoddaf eu cyrraedd, bydd y gefnogaeth hon ar gael i bawb (4.8) |

# Sut byddwn ni'n monitro cynnydd

Er mwyn monitro ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion llesiant a'n nodau tair blynedd, byddwn ni'n casglu data ynghylch y mesurau canlynol. Ar ben hynny, bydd Cynlluniau Busnes Penaethiaid Gwasanaeth yn crisialu mesurau gweithredu a lefel uchel yr adroddir arnynt bob chwarter.

| **Monitro ein cynnydd** |
|---|
| • Cynyddu canran/nifer yr oedolion sydd â chymwysterau Lefel 2 neu uwch |
| • Cynyddu nifer y prentisiaethau a gefnogir – mewnol / allanol |
| • Cynyddu % y boblogaeth oedran gweithio sy'n gyflogedig |
| • Cynyddu niferoedd y swyddi a grewyd/ddiogelwyd o ganlyniad i gefnogi busnes |
| • Cynnal cyfradd benodi lwyddiannus y cyngor, sef 96% (data 2024/2025) |
| • Incwm cyfartalog y trigolion |
| • Cynyddu nifer y busnesau a gefnogir |
| • Cynyddu i 95% ganran yr anfonebau a delir i gyflenwyr o fewn 30 diwrnod |
| • Cynyddu canran gwariant y cyngor yng Nghastell-nedd Port Talbot |
| • Canran y newid mewn teithiau teithwyr yn ystod y flwyddyn ariannol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol ar wasanaethau bysiau lleol â chymhorthdal. |
| • Canran y newid mewn cilometrau gwasanaeth byw a weithredwyd ar wasanaethau bysiau lleol â chymhorthdal yn ystod y flwyddyn ariannol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. |


**Rhaglen Alluogi**

*Mae ein sgiliau galluogi yn caniatáu i'r cyngor addasu a thrawsffurfio i ymateb i anghenion a disgwyliadau newidiol ein cymunedau*



# Rhaglen Alluogi' - Datblygu ein Sefydliad

Mae ein gwaith trwy ein 'Rhaglen Alluogi' yn sicrhau bod gennym y galluoedd i gefnogi'r cyngor i addasu a thrawsffurfio er mwyn ymateb i anghenion a disgwyliadau newidiol ein cymunedau.




## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae galw cynyddol am wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys nawdd cymdeithasol, tai ac addysg, yn rhoi'r adnoddau sydd ar gael o dan fwy o straen. Ar ben hynny, mae cost cyflwyno'r gwasanaethau hyn yn parhau i godi, yn sgîl chwyddiant
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn datgan bod 77% o'r ymatebwyr wedi defnyddio o leiaf un wefan gwasanaeth cyhoeddus o fewn y 12 mis diwethaf (Stats Wales – Rhagfyr 2024)
- Mae denu a chadw gweithlu amrywiol sydd â'r sgiliau a'r galluoedd cywir i'r dyfodol yn hollbwysig
- Mae nifer o swyddogaethau a gwasanaethau ar draws y cyngor yn galw am gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol a dyletswyddau statudol
- Fel corff cyhoeddus, mae craffu effeithiol a throsolwg o bolisïau a gwasanaethau'r cyngor yn hanfodol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd
- Gall cyfathrebu'n effeithiol â phoblogaeth amrywiol, wasgaredig fod yn heriol, wrth reoli'r rhaniad digidol ar draws y sir.

# Ein Nodau Strategol 2025/2028

Mae ein gwaith yn ystod y tair blynedd nesaf i gyflawni ein hamcanion llesiant wedi cael ei gyflwyno yn y Strategaeth Gorfforaethol hon. Fe'i cefnogir gan gynlluniau busnes Penaethiaid Gwasanaeth, ynghyd â strategaethau a chynlluniau a gynhyrchir mewn cydweithrediad â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

## Ein Nodau 3 Blynedd

| **Rydyn ni eisiau gwella sut rydyn ni'n cyflwyno gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i drigolion Castell-nedd Port Talbot. Byddwn ni'n cyflawni hynny trwy'r canlynol:** | |
|---|---|
| Sefydlu diwylliant o gynllunio a rheoli perfformiad effeithiol sy'n annog gwelliant parhaus fel y nodir yn y fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol (5.1) | Cyflawni'r dyletswyddau a nodir mewn Trefniadau Sifil Wrth Gefn a deddfwriaeth bod yn barod a'r canllawiau a'r strategaethau cysylltiedig mewn perthynas ag amddiffyniad sifil (5.2) |
| Gwella swyddogaethau darpariaeth cyfathrebu a marchnata a gwasanaeth cwsmeriaid y cyngor (5.3) | Bod â'r nifer cywir o bobl â'r sgiliau a'r agweddau cywir yn eu lle ar yr adeg gywir i gyflwyno gwasanaethau a swyddogaethau'r cyngor (5.4) |
| Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd (MTFP) (5.5) | Adolygu'r fethodoleg gyfredol ar gyfer dyrannu cyllid cyfalaf a chyflwyno proses fwy tryloyw (5.6) |
| Sicrhau fframwaith diogel, cyfreithlon ac effeithiol ar gyfer gweithrediadau'r cyngor, gyda chefnogaeth uned Gwasanaethau Cyfreithiol gydnerth sy'n gallu addasu (5.7) | Cyflwyno gwasanaethau cyflym, effeithlon a phroffesiynol i bob cleient, gan gynnal Cofrestr Pridiannau Tir wedi'i diweddaru a safonau uchel o ran cyflwyno gwasanaeth (5.8) |
| Darparu gwasanaeth cofrestru modern, cefnogol ac ymroddedig, sy'n cynnig y dewis ehangaf i ddefnyddwyr (5.9) | Sicrhau prosesau democrataidd ac etholiadol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, gan feithrin hyder y cyhoedd a'u hymwneud â phenderfyniadau (5.10) |
| Rhoi prosesau caffael ar waith sy'n cydymffurfio â'r gyfraith a moeseg, gan hybu cyflogaeth leol a datblygiad busnesau (5.11) | Cynnal trefniadau trwyddedu rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth reoliadol a diogelu'r cyhoedd, gan ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid (5.12) |
| Dylunio a datblygu gwasanaethau digidol ar sail anghenion trigolion, busnesau, aelodau etholedig, staff ac ymwelwyr (5.13) | Rhoi technoleg ar waith sy'n gadarn, yn ddiogel ac yn effeithlon, ac y mae modd ei graddoli (5.14) |
| Moderneiddio arferion rheoli data i sicrhau bod data yn gywir, yn ddiogel, ac yn hawdd ei gyrchu (5.15) | Buddsoddi yng ngallu a gwydnwch staff trwy raglenni hyfforddi a datblygu (5.16) |

# Sut byddwn ni'n monitro cynnydd

Er mwyn monitro ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion llesiant a'n nodau tair blynedd, byddwn ni'n casglu data ynghylch y mesurau canlynol. Ar ben hynny, bydd Cynlluniau Busnes Penaethiaid Gwasanaeth yn crisialu mesurau gweithredu a lefel uchel yr adroddir arnynt bob chwarter.

| **Monitro ein cynnydd** |
|---|
| • Cynyddu canran yr arbedion cytunedig a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn o'r % gyfredol, sef XX (figure to be added following closure of accounts) |
| • Cynyddu i 98% dreth y cyngor a gesglir fel canran o'r cyfanswm |
| • Cynyddu i 99% swm y trethi busnes a gesglir fel canran o'r cyfanswm |
| • Cyfradd trosiant cyflogeion i barhau'n 'bositif' (h.y. rydyn ni'n recriwtio mwy o bobl nag sy'n ymadael) |
| • 100% o'r Cynlluniau Ymateb Brys wedi'u dosbarthu fel rhai wedi'u diweddaru |
| • Ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn derbyn sylw gan Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Cheisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun o fewn y cyfnodau a ddiffiniwyd yn statudol |
| • Nifer y dirwyon a bennwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o ran torri amodau data |
| • Nifer yr adolygiadau barnwrol llwyddiannus neu'r heriau i benderfyniadau a wnaed |
| • Cyflawni argaeledd 99.90% o'r System Graidd o fewn yr oriau craidd |
| • Sgorio 90% neu'n uwch o arolwg corfforaethol Boddhad Defnyddwyr y Wefan |
| • Sgôr cydymffurfiaeth hygyrchedd o 90% neu'n uwch o ran WCAG (Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys ar y We) yn erbyn y safon 'AA' |
| • Sgorio 75% neu'n uwch ar gynnwys **www.npt.gov.uk** (Safon y cynnwys ar y wefan) |
| • Cynyddu nifer y cyfrifon myNPT sy'n cael eu creu |

# Ydyn ni'n gwneud gwahaniaeth?

## Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Mae adborth yn hanfodol i'n cyngor. Mae'n ein helpu i sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei rhannu gydag uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn wir yn adlewyrchu profiadau ac anghenion personol. Trwy ddeall adborth cwsmeriaid a gwasanaethau, gallwn ni werthuso effaith ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn well.

Mae casglu adborth hefyd yn gyfle i ni ddangos sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau'r cyngor yn ddoeth ac yn glynu at egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn gryno, mae eich mewnbwn yn ein helpu i wella ac i sicrhau ein bod ni'n cynnig gwerth am arian.

| **Arolwg Gweithwyr** |
|---|
| • Cynnydd yng nghanran y cyflogeion sy'n cytuno/cytuno'n bendant bod hwn yn gyngor da i weithio iddo (76% - canlyniad arolwg 2024)<br>• Cynnydd yng nghanran y cyflogeion sy'n cytuno/cytuno'n bendant eu bod yn falch o ddweud wrth bobl eu bod yn gweithio i Gyngor CNPT (58% - canlyniad arolwg 2024)<br>• Cynnydd yng nghanran y cyflogeion a fyddai'n cytuno/cytuno'n bendant eu bod yn argymell Cyngor CNPT fel lle gwych i weithio (69% - canlyniad arolwg 2024) |

### Cerrig Milltir Cenedlaethol i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu 17 o gerrig milltir cenedlaethol i olrhain cynnydd tuag at 7 nod llesiant. Bydd y cerrig milltir isod yn cael eu cefnogi gan y cynnydd a wneir o dan Amcan Llesiant 3.

- Dileu'r bwlch cyflog ar gyfer rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050



## Lleisio’ch barn

Croesawir ymholiadau neu adborth ar yr adroddiad hwn trwy’r:

E-bost: policy@npt.gov.uk
Post:

Y Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot,
Y Ganolfan Ddinesig,
Port Talbot,
SA13 1PJ

Dilynwch ni ar: